SUL CYFFREDIN 19

**DIARHEBION 1:20-33; SALM 19;
IAGO 3:1-12; MARC 8:27-38**

● **Gweddi agoriadol**
Yn dy bresenoldeb
canfyddwn fara'r bywyd
fydd yn bwydo ein heneidiau.

Yn dy bresenoldeb
canfyddwn ddŵr bywiol
fydd yn torri ein syched.

Yn dy bresenoldeb
canfyddwn Oen Duw
sy'n maddau ein pechod.

Yn dy bresenoldeb
canfyddwn oleuni
y gallwn addoli ynddo.

● **Moliant**
Mae'r nefoedd yn datgan dy ogoniant;
a'r ffurfafen yn mynegi dy ogoniant.
Ni leferir yr un gair,
ni chlywir yr un sŵn,
ac eto yn eu godidowgrwydd
datguddir dy grefftwaith.

Agor ein llygaid a'n dychymyg,
er mwyn i ni weld
yn y cyffredin
law'r dwyfol,
a gorfoleddu yn ein byd
ble rydym yn byw ac yn symud,
achos rhodd dy gariad i ni ydyw.

● **Cyffes**
Maddau i ni pan fethwn weld dy law
yn harddwch y byd,
neu dy gariad yng ngair cysurlon
cyfaill neu ddieithryn.
Maddau i ni pan fethwn glywed dy sibrwd
yn torri drwy betheuach y byd,
neu wrando wrth i ti siarad mewn tawelwch
i ddyfnderoedd ein calon.

Agor y llygaid hyn i weld,
y clustiau hyn i glywed,
y meddyliau hyn i ddeall
a'r bywydau hyn i wasanaethu,
fel bod y geiriau a lefarwn
a'r meddyliau sy'n ein calon
yn gymeradwy yn dy olwg di,
ein nerth a'n gwaredwr.

● Diolch

I rai rwyt
yn eiriau cysurlon
ar adeg galar neu angen;
i eraill, athro
yn marw dros yr hyn a gredai.
I rai dwyt ti'n ddim mwy
na darparwr triciau hud.

Ond i ni ti yw
creawdwr y byd,
gwaredwr y byd,
anadl bywyd
sy'n ein cynnal bob dydd,
yr un y codwn
ein calonnau a'n heneidiau iddo
mewn diolch bythol.